# EISTEDDFOD Rhys Thomas James (Pantyfedwen) LLANBEDR PONT STEFFAN

## 28 - 31 Awst 2026

## TESTUNAU'R ADRAN LLENYDDIAETH

### Beirniaid:  Y Prifeirdd Emyr Lewis a Tudur Dylan Jones

1. **Cystadleuaeth y Gadair**
   Cerdd gaeth neu ddilyniant o gerddi caeth (hyd at 60 llinell): 'Aros'
   Gwobr: Cadair Fechan a £200

2. **Cystadleuaeth y Goron**
   Casgliad o gerddi rhydd (hyd at 100 llinell): 'Ymwelydd' neu 'Ymwelwyr'
   Gwobr: Coron a £200

3. **Cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith**
   Darn neu ddarnau o ryddiaith mewn unrhyw ffurf (dim mwy na 3,000 o eiriau): 'Llinynnau'
   Gwobr: Y Fedal a £200

4. **Cystadleuaeth y Gadair i rai dan 25 oed**
   Cerdd neu gasgliad o gerddi byr hyd at 60 llinell: 'Dan y croen'
   Gwobr:  Cadair Fechan a £150

5. **Tlws Rhyddiaith Ieuenctid i rai dan 25 oed**
   Darn o ryddiaith mewn unrhyw ffurf (dim mwy na 2000 gair): 'Y Dewis'
   Gwobr:  Tlws Ieuenctid a £150

6. **Englyn**
   Testun: 'Carafán'
   Gwobrau:  1.  £50  2. £30  3. £15

7. **Telyneg mewn mydr ac odl**
   Testun: 'Weithiau'
   Gwobrau:  1.  £50  2.  £30  3.  £15

8. **Cerdd yn y wers rydd**
   Testun:  'Gwydr'
   Gwobrau:  1.  £50  2.  £30  3.  £15

9. **Cywydd** (dim mwy na 16 llinell)
   Testun:  'Bwlch'
   Gwobrau:  1:  £50  2.  £30  3.  £15

10. **Soned**
    Testun:  'Alaw'
    Gwobrau:  1.  £50  2. £30  3.  £15

11. **Rhyddiaith**
    Erthygl ar destun a fydd yn apelio'n benodol at ddarllenwyr *Clonc*, papur bro ardal yr eisteddfod hon. Ystyrir eu cyhoeddi.
    Gwobrau:  1.  £50  2.  £30  3.  £15

12. **Cystadleuaeth i ddysgwyr y Gymraeg (Canolradd +)**
    Portread neu stori (dim mwy na 800 gair). Testun: 'Ffrind'
    Gwobr: £50 i'w rannu yn ôl dewis y beirniad.

13. **Cyfansoddi Tôn i Emyn Buddugol 2025 (gwaith John Meurig Edwards)**
    **Manylion a geiriau ar dudalen 3 y ddogfen hon*

# Talwrn y Beirdd

## gyda'r Prifeirdd Emyr Lewis a Tudur Dylan Jones

### Clwb Rygbi Llambed
### nos Wener, 28 Awst am 7.30 o'r gloch

Dim llai na 3 aelod ymhob tîm.
Gwobrau: 1. £150 a Tharian Sialens Goffa Jim Evans; 2. £100; 3. £50. (Rhoddir £30 i bob tîm arall sy'n cystadlu).

**Am fwy o fanylion ac i gofrestru, cysylltwch ag ysgrifennydd y Pwyllgor Llên, Marian Morgan**: 07870515492 neu davies_marian879@hotmail.com. Byddwn yn anelu at rannu'r testunau gyda'r timau ar **15 Awst 2026** felly cofrestrwch cyn hynny gan rannu eich manylion cyswllt.

********************

# Amodau

1. Rhaid i bob cynnig llenyddol gyrraedd Cadeirydd y Pwyllgor Llên erbyn **BORE Gwener, 14 Awst 2026.** Eleni, derbynnir y ceisiadau drwy'r post **neu** mewn dogfennau Word wedi eu hatodi mewn ebost. Er tegwch i'n beirniaid, ni dderbynir cynigion ar ôl hyn. Danfonwch eich cynigion at Elin Williams, Y Garn, Cwm-ann, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 8EL neu at elinygarn@hotmail.com

2. Mae angen nodi ffugenw ar bob ymgais. Yn achos ceisiadau ebost, rhaid cynnwys ffugenw, enw a chyfeiriad y cystadleuydd, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost cyswllt. Yn achos ceisiadau post, rhaid amgáu y wybodaeth hon mewn amlen dan sêl gyda'r ffugenw/au a'r gystadleuaeth/cystadlaethau ar y tu allan.

3. Atelir y wobr yng nghystadlaethau'r Gadair, y Goron, y Fedal Ryddiaith, y Gadair i rai dan 25, a'r Tlws Rhyddiaith Ieuenctid, oni bydd y buddugol (neu gynrychiolydd mewn amgylchiadau arbennig) yn bresennol yn yr Eisteddfod.

4. Cyhoeddir y canlyniadau yn Y Talwrn ar nos Wener 28 Awst 2026, ag eithrio cyst. 2, 4 a 5 ar y dydd Sadwrn; cyst.13 ar y nos Sul; a chyst. 1 a 3 ar y dydd Llun.

5. Danfonir beirniadaethau yn electronig i bawb sydd wedi rhoi cyfeiriad e-bost i ni. Pe byddai'n well gennych dderbyn beirniadaeth drwy'r post, dylid nodi hynny wrth gystadlu a chynnwys amlen gyda stamp arni.

6. Rhaid i'r holl gynigion fod yn Gymraeg, yn waith dilys unigolion ac nid cyweithiau, ac wedi'u hysgrifennu'n eglur ar bapur maint A4 neu wedi eu teipio. Lle bo cystadleuydd yn cystadlu sawl gwaith, dylai pob cyfansoddiad fod ar dudalen/ mewn dogfen ar wahan.

7. Bydd hawlfraint yr emyn dôn fuddugol yn eiddo i Bwyllgor yr Eisteddfod.

## * Cyfansoddi Tôn i Emyn Buddugol 2025 (gwaith John Meurig Edwards)

Gwobr: £100 (ni rennir y wobr).

## Beirniad: Ieuan Jones

Rhaid i bob cyfansoddiad gyrraedd ysgrifennydd y Pwyllgor Cerdd erbyn **BORE Gwener, 14 Awst 2026.** drwy'r post **neu** mewn ebost. Er tegwch i'n beirniaid, ni dderbynir cynigion ar ôl hyn. Danfonwch eich cynigion at Lois Williams, Crynfryn, Cwm-ann, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion SA48 8EW neu at loisw33@yahoo.com

**Emyn buddugol 2025 – ar gyfer cystadleuaeth 13 (Cyfansoddi Emyn Dôn)**

**Atgyfodiad**

Cydlawenhawn wrth gofio
Am wyrth y trydydd dydd.
Pan drechodd Crist yr angau,
A dod o'i rwymau'n rhydd;
Cydlawenhawn, rhown glod i Dduw,
Cyfododd Crist, mae eto'n fyw.

Pan fo cymhlethdod bywyd
Yn gwneud i ni lesgáu,
A gofid ac unigrwydd
Yn pwyso a thristáu,
Deisyfwn gymorth hael ein Duw,
A thrown at Grist, sydd eto'n fyw.

Mewn byd sydd mor ansicr,
Amddiffyn ni rhag loes,
A chadw ni'n ddiogel
Rhag holl ddrygioni'n hoes,
A boed i rym yr aberth drud
Ein cynnal ar ein taith drwy'r byd.

Boed Crist a'i atgyfodiad
Yn obaith i ni oll;
Ein cymorth pan ddiffygiwn,
Ein llyw pan awn ar goll;
Cydlawenhawn, rhown fawl i Dduw,
Cyfododd Crist, mae eto'n fyw.

*John Meurig Edwards*